



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cronfa Buddsoddi Cyfalaf 2015–16: canolfannau a gofodau dysgu Cymraeg

Canllawiau i ymgeiswyr

Dyddiad cau: 6 Chwefror 2015

CYMRAEG

ISBN digidol 978 1 4734 2680 1
© Hawlfraint y Goron Rhagfyr 2014
WG23990

1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn agor cronfa buddsoddi cyfalaf o £1 miliwn ar gyfer 2015-16 a gaiff ei dargedu'n benodol at gefnogi datblygiad canolfannau a/neu ofodau dysgu all hybu'r defnydd o'r Gymraeg neu drochi'r Gymraeg. Mae'r gronfa hon yn adeiladau ar lwyddiant y gronfa £1.25m ar gyfer 2014-15, sef un o brif ymrwymadau ein dogfen bolisi *laith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen* a gyhoeddwyd ym mis Awst 2014.

Caiff y cyllid ei ddyrannu i awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach neu brifysgolion a fydd yn gallu dangos dull arloesol a phwyslais ar gydweithio mewn partneriaeth ag eraill er lles y gymuned ehangach.

Nod y cyllid cyfalaf hwn yw rhoi cymorth i sefydlu prosiectau strategol a fydd yn rhoi hwb i agenda bolisi'r Gymraeg, gyda phwyslais ar ddarparu sylfaen i brosiectau cymunedol fod yn hunan-gynhaliol.

Bydd y Grantiau a gaiff eu gwobrwyo o dan y cynllun hwn yn ddarostyngedig i delerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru.

2. Pwy sy'n gymwys i wneud cais am grant?

Gall y canlynol wneud ceisiadau ar gyfer y gronfa buddsoddi cyfalaf hwn:

- Awdurdodau Lleol
- Y sector Addysg Uwch
- Sefydliadau Addysg Bellach

Rhaid i ymgeiswyr ddangos sut y byddant yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill megis busnesau a sefydliadau trydydd sector i sicrhau fod y buddsoddiad yn rhoi budd i'r gymuned yn ehangach.

Os nad yw eich sefydliad yn gallu cydymffurfio â'r gofynion a nodir uchod, ni fydd eich cais yn gymwys i'w ariannu o dan y cynllun grant hwn.

Ni fydd y canlynol yn gymwys i dderbyn grant o dan y cynllun hwn:

- unigolion
- sefydliad sydd ddim yn medru cydymffurfio gyda'r amodau uchod
- person sy'n codi arian ar ran personau eraill, neu ymgynghorwyr eraill sy'n gweithio ar ran sefydliad.

3. Pa fath o brosiectau y gallwn eu hariannu?

Mae hwn yn gronfa buddsoddi **cyfalaf** un tro ar gyfer datblygu canolfannau i alluogi pobl i ddysgu a/neu defnyddio'r Gymraeg a fydd yn ganolbwynt ar gyfer y Gymraeg yn y gymuned. Ni fydd y gronfa'n darparu cyllid referniw ar gyfer cynnal y canolfannau nac ar gyfer gweithgareddau i'w cynnal yn y canolfannau (gweler hefyd adran 4 isod).

Yn ogystal a cheisiadau i ddatblygu canolfannau Cymraeg newydd, byddwn yn croesawu ceisiadau ar gyfer y canlynol:

- ceisiadau i ddatblygu canolfannau Cymraeg sy'n bodoli eisoes er mwyn darparu cyfleusterau ychwanegol;
- ceisiadau i sefydlu rhagor o ganolfannau sy'n darparu dysgu dwys yn y Gymraeg i hwyrddyfodiaid, er mwyn caniatáu iddynt drosglwyddo'n ddiraferth i ysgolion dwyieithog lleol;
- ceisiadau ar gyfer addasu asedau cymunedol presennol i fod yn ganolfannau Cymraeg.

Caiff ymgeiswyr wneud cais unigol ar gyfer prosiectau aml-leoliad.

4. Beth yw cyllid cyfalaf?

Mae Cyfalaf yn golygu gwaith ffisegol, a ffioedd proffesiynol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith ffisegol; neu brynu offer neu eitemau symudol sy'n rhan anhepgor o gyflawni'r prosiect (gan gynnwys TAW na ellir ei hadennill). Mae prynu adeilad, neu adeiladu adeilad newydd, hefyd o fewn cwmpas y gronfa.

Nid yw'r cynllun yn darparu ar gyfer costau Refeniw gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â datblygu cynllun busnes, astudiaeth ymarferoldeb; prosiect dylunio'n unig; na chostau staff na chostau gweithredu eraill.

Ni fyddwn yn ystyried ôl-geisiadau hy, lle mae'r gwaith eisoes wedi'i ddechrau cyn i'r cyllid gael ei ddyfarnu.

5. Y lefelau ariannu

Yr uchafswm grant ar gyfer cais gan gorff unigol yw £300,000. Medrwn gynnig hyd at 100% o'r costau cymwys, ond rhoddir blaenoriaeth i geisiadau sydd yn cynnwys cyfraniadau i'r costau. Bydd rhaid gwario a hawlio'r cyllid yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16 h.y. erbyn 31 Mawrth 2016.

6. Meini prawf ar gyfer cyllido

Rydym eisiau i'r canolfannau gefnogi amcanion ein datganiad polisi *laith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen*. Un nod allweddol yn *Bwrw mlaen* yw cefnogi ardaloedd sydd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg ac ardaloedd eraill o bwysigrwydd strategol. Bydd angen i geisiadau ddangos sut y maent yn cyfrannu i'r nod hwn.

Rhaid i bob cais hefyd esbonio sut bydd y buddsoddiad cyfalaf yn y canolfannau yn hwyluso a chefnogi un neu ragor o'r canlynol:

- cyfleoedd i fusnesau Cymraeg i arloesi a rhwydweithio;
- cyfeirio busnesau tuag at wasanaethau cefnogi busnes Cymraeg;

- cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg;
- cyfleoedd i ddysgwyr i ymarfer eu Cymraeg ac i ddod yn siaradwyr hyderus;
- dysgu dwys yn y Gymraeg i hwyrddyfodiaid, er mwyn caniatáu iddynt drosglwyddo'n ddidrafferth i ysgolion dwyieithog lleol;
- darpariaeth profiad gwaith cyfrwng Cymraeg er mwyn cefnogi dysgu galwedigaethol;
- darpariaeth addysg cymunedol cyfrwng Cymraeg i oedolion;
- creadigrwydd a chydweithio ym maes celfyddydau perfformio Cymraeg a/neu'r cyfryngau digidol;
- hybu a darparu digwyddiadau cymunedol Cymraeg;
- cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfa anffurfiol a chymdeithasol – ar gyfer pob oed, ond yn arbennig ar gyfer pobl ifanc;
- cynyddu pa mor weladwy yw'r Gymraeg a chynyddu'r ymwybyddiaeth ohoni ymhlith ymwelwyr a'r boblogaeth leol.

7. Paratoi cais

Dylid cyflwyno ceisiadau ar ffurf cynllun busnes byr sydd ddim yn hirach na 2,000 o eiriau. Mae cynllun busnes yn golygu dogfen sydd:

- yn darparu cefndir statws cyfreithiol yr ymgeisydd, ei nodau a'i brosesau llywodraethu;
- yn rhoi tystiolaeth lawn bod gan y corff y capasiti, y profiad a'r sgiliau i gyflenwi'r prosiect
- yn dadlau'r achos dros gael cyllid gan gynnwys:
 - a. disgrifiad llawn o'r prosiect;
 - b. yr angen am y prosiect;
 - c. unrhyw opsiynau eraill a ystyriwyd;
 - d. a yw'n bodloni meini prawf ar gyfer ariannu;
 - e. nodi'n glir pwy y bwriedir iddynt elwa o'r prosiect;
 - f. pa wahaniaeth fydd y prosiect yn ei wneud i'r cymunedau a'r unigolion fydd yn elwa ohono; a
 - g. pa ganlyniadau fydd y prosiect yn eu cyflenwi.

- yn nodi pwy sy'n gysylltiedig â'r prosiect, ym mha rinwedd a sut y cawsent eu cynnwys;
- yn nodi costau'r prosiect cyfan (refeniw a chyfalaf) ac yn dangos sut y caiff y cyfraniad cyfalaf ei ddefnyddio yn y cyd-destun hynny;
- yn nodi llif arian ar gyfer y prosiect;
- yn rhoi manylion am ba gymorth/ffynonellau refeniw fydd yn cefnogi cynnal y canolfannau;
- yn dangos sut y bydd y prosiect yn gynaliadwy ac yn cael effaith hirdymor;
- yn dangos tystiolaeth fod gennych y cydsyniadau angenrheidiol ar gyfer gwneud y gwaith; ac
- yn dangos tystiolaeth eich bod yn berchen, neu'n meddu ar les gydag o leiaf 5 mlynedd ar ôl, ar gyfer yr adeilad(au) a bod gennych gydsyniad y tirfeddiannwr i wneud y gwaith.

Dylech anfon eich cais busnes ar e-bost:
mewnflwch.grantiau@cymru.gsi.gov.uk

8. Sut byddwn yn asesu'r ceisiadau

Mae'r canlynol yn amlinellu'r broses asesu:

- 1 Mae angen i chi gyflwyno'ch cais atom erbyn y dyddiad cau, sef **6 Chwefror 2015**.
- 2 Byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth o fewn 5 diwrnod gwaith
- 3 Byddwn yn gwneud asesiad cychwynnol er mwyn sicrhau fod eich cais yn gymwys a chyflawn. Fe gysylltw'n â chi'n fuan os byddwn angen unrhyw wybodaeth bellach.
- 4 Gyda chymorth panel allanol o ymgynghorwyr, byddwn wedyn yn ystyried eich cais yn fanwl, os yw'n gymwys. Yn ystod yr asesiad gallwn ofyn i chi am fwy o eglurhad neu wybodaeth.
- 5 Caiff canlyniadau'r asesiad eu cyflwyno i Banel Cyfalaf yr Adran Addysg a Sgiliau ar gyfer ystyriaeth / cymeradwyaeth.
- 6 Byddwn yn anelu i roi gwybod i chi am ein penderfyniad erbyn 31 Mawrth 2015.

Caiff pob cais ei ystyried yn unol â'r meini prawf ar gyfer ariannu a amlinellir yn adran 6 uchod a'r elfennau o gynllun busnes a amlinellir yn adran 7 uchod.

9. Cynnig grant

Bydd Llywodraeth Cymru yn anfon llythyr o gytundeb i chi arwyddo a fydd yn nodi:

- swm a hyd y cymorth grant;
- y diben y rhoddir y grant ar ei gyfer, gan restru unrhyw eithriadau penodol a chyfyngiadau neu amodau arbennig (yn ogystal â thelerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru).
- eich targedau a'ch canlyniadau;
- ein trefniadau monitro a gwerthuso;
- y trefniadau ar gyfer talu;
- telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru.

10. Talu'r grant

Polisi Lywodraeth Cymru yw i ôl-dalu grantiau. Fel arfer, caiff taliadau eu gwneud yn chwarterol fel ôl-ddyled, ond gall trefniadau ar gyfer taliadau mwy rheolaidd gael eu gwneud er mwyn hwyluso llif arian. Rhaid hawlio'r grant yn llawn erbyn 31 Mawrth 2016.

11. Cymorth gwladwriaethol

Os yw'r cymorth yn golygu cymorth gwladwriaethol yn ôl diffiniad Erthyglau 107 a 108 o Gytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, mi fydd unrhyw cynnig yn ddarostyngedig i reolau cymorth gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd.

12. Twyll ac afreoleidd-dra

Rhaid rhoi gwybod yn ysgrifenedig ymlaen llaw os bydd un o'ch cyfarwyddwyr, aelod o'ch bwrdd rheoli, neu unrhyw swyddog yn eich sefydliad wedi'i gael yn euog, neu yn disgwyl achos cyfreithiol, yng nghyd-destun twyll neu afreoleidd-dra ariannol. Dylech ddarparu manylion llawn wrth wneud cais i'r Llywodraeth am grant. Os ydych eisoed yn derbyn grant gennym, fe ddylech wneud hyn ar unwaith. Gall methu â gwneud hyn olygu na fydd modd inni roi grant i chi.